

# Cefnogi Gwaith y Mentrau Iaith Pecyn Aelodaeth



Cysylltwch â ni:

[post@mentrauiath.cymru](mailto:post@mentrauiath.cymru)

[www.mentrauiath.cymru](http://www.mentrauiath.cymru)



@mentrauiath



[facebook.com/mentrauiathcymru](https://facebook.com/mentrauiathcymru)

## Beth yw MIC?

Pwrpas Mentrau Iaith Cymru yw cefnogi gwaith y Mentrau Iaith i greu cyfleoedd i gymunedau Cymraeg ffynnu ym mhob cwr o Gymru.

## Beth rydyn ni'n ei wneud

Rydyn ni'n cefnogi'r rhwydwaith o Fentrau Iaith drwy:

- gynnig cyngor, gwybodaeth a chymorth i'r Mentrau Iaith er mwyn cefnogi eu gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg
- cynnal rhwydweithiau cenedlaethol a rhanbarthol i annog a hwyluso'r egwyddorion o gydweithio
- cynnal digwyddiadau hyfforddiant, seminarau a chynadledau amrywiol i'r Mentrau rannu ac elwa o rannu gwybodaeth yn fewnol a gan arbenigwyr
- cydlynu gweithgarwch marchnata a chyfathrebu effeithiol
- dylanwadu er budd y Gymraeg

## Staff a Swyddogion MIC

Ffoniwch neu e-bostiwch un o swyddogion Mentrau Iaith Cymru

### Swyddog Cyfathrebu:

adam@mentrauiiaith.cymru  
01558 825342

### Swyddog Datblygu:


emily@mentrauiiaith.cymru  
01443 493715

### Swyddog Hyfforddiant:

iwanywel@mentrauiiaith.cymru  
01492 643401

## Pwyllgor Gweithredol Mentrau Iaith Cymru 2016/17

**Cadeirydd**.....Owain Gruffudd  
**Is-gadeirydd**.....Lowri Jones  
**Trysorydd**.....Dewi Snelson  
**Aelod**.....Gill Stephen  
**Aelod**.....Meirion Davies  
**Aelod**.....Lis Mclean



## Mentrau iaith

- 1 Menter iaith Môn
- 2 Hunaniaith
- 3 Menter iaith Conwy
- 4 Menter iaith Sir Ddinbych
- 5 Menter iaith Fflint
- 6 Menter iaith Maelor
- 7 Menter iaith Maldwyn
- 8 Cered - Menter iaith Ceredigion
- 9 Menter Sir Benfro
- 10 Menter Gorllewin Sir Gâr
- 11 Menter Cwm Gwendraeth
- 12 Menter Bro Dinefwr
- 13 Menter iaith Abertawe
- 14 Menter iaith Castell nedd Port Talbot
- 15 Menter iaith Bro Ogwr
- 16 Menter Brycheiniog a Sir Faesyfed
- 17 Menter iaith Merthyr
- 18 Menter iaith Rhondda Cynon Taf
- 19 Menter Bro Morgannwg
- 20 Menter Caerdydd
- 21 Menter iaith Caerffili
- 22 Menter iaith Casnewydd
- 23 Menter iaith Blaenau Gwent, Torfaen a Myrwy

## Ein Gweledigaeth

Rydyn ni am weld twf yn y defnydd o'r Gymraeg yn gymunedol ym mhob rhan o Gymru.

## Ein Cenhadaeth

Rydyn ni am fod yn gorff cefnogi effeithiol i'r Mentrau Iaith drwy gynnig gwasanaethau perthnasol o safon uchel sy'n cefnogi a meithrin datblygiad strategol y Mentrau Iaith er budd y Gymraeg.

## Ein Gwerthoedd

Mae'r gwerthoedd isod yn rhan greiddiol i waith Mentrau Iaith Cymru, i'r sefydliad, i'n gweithwyr a'n gwirfoddolwyr.

## Y Gymraeg

- Lles y Gymraeg heddiw ac yn y dyfodol yw rheswm ein bodolaeth
- Mae gan bawb yr hawl i siarad Cymraeg ym mhob agwedd ar fywyd
- Mae'r Gymraeg yn eiddo i bawb yng Nghymru
- Mae'r Gymraeg yn sgil y gall bawb ei ddysgu a'i ddefnyddio

## Ein Gwaith

- Rydym yn cynnig gwasanaethau proffesiynol ac effeithiol
- Mae modd i ni gyflawni mwy drwy rannu a chydweithio ag eraill
- Rydym yn dysgu o brofiad
- Rydym yn gweithio mewn ffordd dryloyw a democrataidd
- Rydym yn gweithio mewn modd sy'n llesol i'r amgylchedd
- Rydym yn hyblyg, yn greadigol ac yn arloesol

## Pobl

- Rydym yn trin pawb yn gyfartal
- Mae gwirfoddolwyr yn hanfodol
- Rydym yn cefnogi ein gweithwyr a'u datblygiad

## Y Mentrau: Ffeithiau Allweddol

<b>Staff Llawn Amser</b>	133
<b>Staff Rhan amser / achlysurol</b>	447
<b>Gwirfoddolwyr</b>	930
<b>Digwyddiadau / Gweithgareddau</b>	3,864 (3,800+)
<b>Cyfranogwyr</b>	160,105 (160,000+)
<b>Trosiant Blynyddol</b>	£6,398,543.72 (£6.4 miliwn)

# Beth all Mentrau Iaith Cymru ei wneud i chi?

**Mae Mentrau Iaith Cymru yn cynrychioli 23 Menter Iaith ledled Cymru. Mae buddion di-ri i'ch Menter Iaith chi fod yn aelod o'r rhwydwaith hwn. Dyma rai ohonynt...**

**Mae cefnogi'r Mentrau Iaith, eu swyddogion a'u pwyllgorau wrth wraidd ein gwaith. Rydym yn gwneud hyn trwy:**

- Ddarparu cyfleoedd i rwydweithio, rhannu gwybodaeth, syniadau a chydweithio trwy amryw o gyfarfodydd, cynadleddau a chyfleoedd hyfforddiant
- Dylanwadu er budd y Gymraeg trwy ymateb i ymgynghoriadau cyhoeddus ar ran y Mentrau Iaith
- Datblygu prosiectau rhanbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys Ymgyrchoedd Marchnata a Chynllun Marchnad Lafur Cyfrwng Cymraeg
- Cynnig cefnogaeth ac arweiniad i'r Mentrau Iaith ar faterion amrywiol, gan gynnwys polisi mewnol, staffio, ymchwil a chyfleoedd datblygu yn y maes cynllunio iaith.

## Cyfleoedd Rhwydweithio Rhanbarthol a Chenedlaethol

Mae Mentrau Iaith Cymru yn cynnal o leiaf 4 cyfarfod cenedlaethol blynyddol i brif swyddogion y Mentrau a gwirfoddolwyr pwyllgorau i drafod cyfeiriad strategol y rhwydwaith yn ogystal â phenderfynu ar ymwneud y Mentrau Iaith â nifer o brosiectau Cenedlaethol.

Rydym hefyd yn cynnal o leiaf 12 cyfarfod cydweithio rhanbarthol, 4 ym mhob rhanbarth (Rhanbarth y Gogledd, De Orllewin a De Ddwyrain) sydd yn cynorthwyo'r Mentrau i gydweithio ar brosiectau rhanbarthol.

## Dylanwadu er budd y Gymraeg

Mae sicrhau bod barn ein haelodau yn cael ei chynrychioli yn genedlaethol ac yn lleol yn rhan hanfodol o'n gwaith. Mae'n gwaith polisi ac ymgyrchu yn strwythuredig ac yn effeithiol, a hynny'n ganlyniad i amrywiaeth barn ein haelodaeth a chryfder lleol y Mentrau Iaith.

Mae Mentrau Iaith Cymru yn datblygu cynllun dylanwadu unigryw sydd wedi'u gweddu at anghenion y Mentrau Iaith a'r Gymraeg, rydym, fel mudiadau trydydd sector, yng Nghymru mewn sefyllfa unigryw o ran y galw sydd arnom i ddarparu gwasanaethau statudol mewn partneriaeth agos â'r Llywodraeth.

Fel rhan greiddiol i hyn, rydym yn cwrdd yn rheolaidd â'r Gweinidog sydd â Gofal dros y Gymraeg, Llefarywyr Pleidiau sydd yn ymwneud â materion ieithyddol ac economaidd a llawer mwy. Mae hyn yn galluogi'r Mentrau i gyfarfod â phenderfynwyr Cymru a thrafod y materion sydd o bwys i ni.

## Mewnrwyd y Mentrau: Porth i ddatblygu

Mae Mewnrwyd Mentrau Iaith Cymru [www.mentrauiath.cymru/mewnrwyd](http://www.mentrauiath.cymru/mewnrwyd) sydd ar gael i staff a gwirfoddolwyr y Mentrau yn cynnwys amrywiaeth o wybodaeth all eich helpu gyda'ch gwaith o ddydd i ddydd gan gynnwys:

- Llyfrgell ddogfennau defnyddiol sy'n cynnwys polisiau enghreifftiol, sesiynau, llythyron enghreifftiol ac adnoddau generig i'w haddasu, strategaethau diweddaraf a llawer mwy.
- Cyfeirlyfr Cysylltiadau sy'n cynnwys manylion staff, partneriaid, a llawer mwy.
- Llyfrgell Ddolenni Defnyddiol sy'n cyfeirio at adnoddau pwrpasol a ffynonellau gwybodaeth.
- Oriel Luniau sy'n cynnwys lluniau safonol i'w defnyddio ar gyhoeddiadau ac ar y we heb orfod poeni am reolau hawlfraint.
- Adran Hysbysiadau yn rhoi gwybod i chi am y cyrsiau diweddaraf, digwyddiadau cenedlaethol o bwys a llawer mwy.

**“Rwy'n teimlo ei fod yn hanfodol bwysig inni fel Mentrau rannu dogfennau ac arfer da mewn un man canolog”**



## Gwybodaeth o bob math i bawb

Mae Swyddogion Mentrau Iaith Cymru yn rhannu gwybodaeth gyson â'r Mentrau Iaith am amrywiaeth o bynciau gwahanol.

Mae Mentrau Iaith Cymru yn rhyddhau Cylchlythyr Cyswllt bob mis. Anelir y cylchlythyr hwn at staff a gwirfoddolwyr y Mentrau a'i fwriad yw rhannu gwybodaeth am waith a llwyddiannau'r Mentrau Ledled Cymru.

Dyma oedd gan un aelod o staff y Mentrau Iaith i'w ddweud am y cylchlythyr:

**“Mae'r cylchlythyr yn gynhwysfawr ac yn sicrhau ein bod yn derbyn gwybodaeth a diweddariadau cyson am ddatblygiadau pwysig.”**

Mae Mentrau Iaith Cymru hefyd yn datblygu **Bwletin Gwaith MIC** sy'n cynnwys diweddariad a gwybodaeth am feysydd gwaith MIC dros chwarter mewn blwyddyn.

Ewch i [www.mentrauaith.cymru/cysylltu-â-ni](http://www.mentrauaith.cymru/cysylltu-â-ni) am fwy o wybodaeth neu fe allwch yrru e-bost at [post@mentrauaith.cymru](mailto:post@mentrauaith.cymru).

## Cynadleddau cenedlaethol, cyfle i ysbrydoli

Trefnir cynadleddau blynyddol gan MIC ar gyfer swyddogion y Mentrau. Mae'r cynadleddau'n ymdrin â phynciau amrywiol fel gwirfoddoli, polisi iaith, marchnata a chyfathrebu gwasanaethau ac arfogi swyddogion i wneud gwahaniaeth. Mae'r cyfleoedd rhwydweithio a'r gwybodaeth sy'n cael ei rhannu yn fanteisiol iawn i'r mentrau iaith.

Wrth sôn am y gynhadledd i Swyddogion Maes dyma oedd gan un o swyddogion y Mentrau i'w ddweud:

**“Wedi cael fy ysbrydoli gan y gynhadledd ac yn teimlo'n bositif iawn wrth fynd ymlaen i wneud gwaith o'r newydd.”**

Nid oes disgwyl i'n haelodau dalu i fynychu sesiynau'r cynadleddau. Cytunir ar brisiau cystadleuol iawn o ran lletya yn ystod y cynadleddau.

## Hyfforddiant sy'n berthnasol i chi

Cynigwn raglen hyfforddiant rheolaidd o gyrsiau hyfforddi, yn unol â meysydd blaenoriaeth y Mentrau Iaith i helpu eich Menter ddatblygu'ch sgiliau a gwybodaeth a chynnig datblygiad proffesiynol parhaus i'ch staff.

Cynhelir ein sesiynau hyfforddiant ledled Cymru, ac nid oes disgwyl i aelodau dalu am hyfforddiant a drefnwyd gan MIC. Gellir, ar gytundeb drefnu sesiynau hyfforddiant ychwanegol i'r rhaglen hyfforddiant cenedlaethol ond ni ellir gwarantu y bydd y sesiynau hyn yn rhad ac am ddim.

## Codi Arian: Adeiladu Capasiti

Rydym yn rhannu gwybodaeth gyson am ffynonellau arian a grantiau yn ogystal â chydlynu ceisiadau grant ar y cyd rhwng y Mentrau Iaith. Er enghraifft, yn 2016/17 fe wnaeth Mentrau Iaith Cymru ddenu £8,000 o gyllid ychwanegol i Ras yr Iaith.

Yn ogystal â hyn yn dilyn ymgyrch llobio llwyddiannus yn 2014/15 gan staff a phwyllgor Mentrau Iaith Cymru llwyddwyd i sicrhau isafswm cyllid £60,000 i bob Menter Iaith yn ogystal â chynnydd sylweddol yng ngrant Mentrau Iaith Cymru. Golygodd hyn gynnydd o £750,000 yng nghyfraniad grant Llywodraeth Cymru tuag at waith y Mentrau Iaith.

## Cyfathrebu a Marchnata

Mae Mentrau Iaith Cymru yn darparu cymorth ac adnoddau ym maes Cyfathrebu a Marchnata. Gwneir hyn trwy ddatblygu Strategaeth Farchnata Genedlaethol gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth o waith y Mentrau a hyrwyddo prosiectau sy'n hybu'r Gymraeg ledled Cymru.

Mae'r cymorth Cyfathrebu a Marchnata yn cynnwys:

- Presenoldeb mewn digwyddiadau cyhoeddus
- Datblygu a Gweithredu Ymgyrchoedd Marchnata
- Cynnal a Datblygu Gwefan a Mewnrwyd y Mentrau Iaith
- Cynnal a Datblygu Platfformau Marchnata Digidol
- Datblygu Rhaglen PR
- Cynnig Hyfforddiant ym Maes Cyfathrebu a Marchnata

Wrth ymweld â Stodin y Mentrau Iaith yn yr Eisteddfod, dyma oedd gan aelod o'r cyhoedd i'w ddweud:

**“Dwi wastad wedi bod eisiau gwybod mwy am y Mentrau Iaith ond wedi ei chael hi'n anodd yn y gorffennol, o weld y sgrin fawr a'r taflenni oedd ar gael ar y stondin, a chofrestru fy manylion ar system gysylltiadau'r Mentrau rwy'n teimlo fel bydd modd imi gyfrannu mwy at waith y Mentrau yn y dyfodol.”**

## Aelodaeth Cyrff Eraill

Drwy fod yn aelod MIC mae eich Menter hefyd yn cael mynediad at wasanaethau'r WCVA a Dathlu'r Gymraeg yn ogystal ag aelodaeth gysylltiol o gyrff eraill.

## Cyngor ar Bolisi ac Adnoddau Dynol

Mae MIC yn darparu llawlyfr staff a pholisïau mewnol enghreifftiol gall arbed adnoddau i'ch Menter. Rydym yn cydweithio'n agos ag ACAS (Cwmni sy'n cynnig cymorth i gyflogwyr ym materion adnoddau dynol a pholisi) ac felly'n gallu darparu cyngor ar faterion adnoddau dynol trwy gyfrwng y Gymraeg i bob Menter Iaith.

## Pwrcasu ar y Cyd

Mae MIC yn cefnogi'r Mentrau i brynu gwasanaethau ar y cyd, gan arbed arian drwy gydweithio. Yn y gorffennol mae hyn wedi arwain at brynu nwyddau marchnata, comisiynu gwefannau a chynnal gwaith ymchwil ar y cyd am bris gostyngol.

## Recriwtio

Mae MIC yn hysbysebu swyddi gyda'r Mentrau Iaith hyd a lled Cymru, gyda hysbysebion yn cyrraedd tua 30,000 o bobl. Rydym yn gwneud hyn trwy hysbysebu ar ein gwefan ac ar ein cyfryngau cymdeithasol.

## Rhestr Wirio - sut all MIC eich helpu chi?

- Gwybodaeth am godi arian
- Cyfleoedd Hyfforddiant
- Rhaglen genedlaethol o gynadleddau
- Y Newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf
- Cymorth yn dylanwadu ar y Llywodraeth/Awdurdodau Lleol
- Cyngor ar Bolisi ac Adnoddau Dynol
- Cymorth Recriwtio Swyddogion
- Aelodaeth Cyrff Proffesiynol
- Cymorth a Chyngor Marchnata
- Pwrcasu ar y cyd
- Recriwtio





## Egwyddorion Aelodaeth

Rydym am sicrhau bod ein gwaith a gwasanaethau mor berthnasol ac effeithiol ag sy'n bosib. Mae'r berthynas aelodaeth gyda phob Menter Iaith yn berthynas ddwyffordd a thrwy gydweithio o fewn yr egwyddorion isod fe allwn ni eich cefnogi yn effeithiol:

### Ymgynghori:

**Byddwn ni'n** ymgynghori a gwranddo ar eich barn er mwyn helpu llywio ein gwaith.

**Gofynnwn i chi** rannu eich barn a sicrhau mewnbyn gan eich staff a gwirfoddolwyr i'n gwaith.

### Cyfathrebu:

**Byddwn ni'n** cyfathrebu'n agored, yn amserol ac yn rheolaidd gyda'n haelodau.

**Gofynnwn i chi** gyfathrebu'n agored, yn amserol ac yn rheolaidd gyda ni.

## Rhannu:

**Byddwn ni'n** sicrhau bod yr egwyddor o rannu yn elfen greiddiol o'n gwaith.

**Gofynnwn i chi** rannu eich llwyddiannau, diweddariadau, newyddion a syniadau gyda ni.

## Cynrychioli:

**Byddwn ni'n** gwneud pob ymdrech i gynrychioli'r Mentrau mewn modd broffesiynol ac effeithiol.

**Gofynnwn i chi** sicrhau cynrychiolaeth yn ein cyfarfodydd a digwyddiadau.

## Aelodaeth:

**Byddwn ni'n** cytuno ar ffi aelodaeth blyneddol i MIC ar y cyd.

**Gofynnwn i chi** dalu'n brydlon yn dilyn derbyn anfoneb swyddogol.

